GARDD
SALM 23

Yr ARGLWYDD yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.
Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,
a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,
ac y mae ef yn fy adfywio.
Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder
er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du,
nid ofnaf unrhyw niwed,
oherwydd yr wyt ti gyda mi,
a'th wialen a'th ffon
yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen
yng ngŵydd fy ngelynion;
yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew;
y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn
a byddaf yn byw yn nhŷ'r ARGLWYDD
weddill fy nyddiau.

SALM 23 (BCND)

Dyffrynnoedd tywyll: Rwy'n galaru am ...

Porfeydd breision: Rwy'n ddiolchgar am ...

Byddaf yn byw: Rwy'n gobeithio am ...

Dduw, cyflwynaf fy ngofidiau i ti am yr hyn rydw i wedi'i golli, fy niolch am yr hyn rydw i wedi'i dderbyn a fy ngobeithion am y dyfodol. Gwarchod a thywys fi a'r rheini rwy'n eu caru, a thyrd â fi un dydd i dy gartref tragwyddol. Amen.